tafod elái

www.tafelai.com

Rhagfyr 2000 **Pris 25c** **Rhif 153**

TEULUOEDD YN OFNI TIR LITHRIAD

Oherwydd tir lithriad ar ochr Mynydd y Garth bu rhaid symud tri theulu o'u cartrefi gyda phrin awr o rybudd ym mis Tachwedd. Hefyd bu rhaid cau ffordd y mynydd o Waelod y Garth i Bentyrch a chafodd cyflenwadau dŵr a nwy eu diffodd.

Dywedodd Nigel Hill, aelod o un o'r teuluoedd, fod y mynydd wedi symud troedfedd rhwng Tachwedd 18 a 19.

"Codon ni wal rhwystro oedd yn costio £10,000 yn yr ardd ond erbyn hyn mae'n cyffwrdd â chefn y tŷ," meddai.

Dywedodd llefarydd ar ran y cyngor taw nod y profion oedd darganfod pa mor sefydlog oedd y mynydd. Roedd y mynydd wedi bod yn symud ers dwy flynedd, meddai, ond roedd y sefyllfa'n waeth o lawer ers canol Tachwedd oherwydd y glaw trwm.

Roedd y trigolion wedi sylwi fod y lôn i un o'r tai yn cracio a lawnt tŷ arall wedi suddo tua 12 modfedd yn ystod y flwyddyn diwethaf ond dros gyfnod o dri diwrnod ymddangosodd craciau a suddodd y ffordd i fyny'r mynydd gan achosi i'r tir fygwth dymchwel un o'r tai.

Gyda'r glaw trwm diweddar mae'r bygythiad o'r mynydd yn achosi pryder i holl drigolion pentref Gwaelod y Garth. Gobeithiwn y bydd yr awdurdodau yn rhoi'r cymorth priodol i ail-sefydlogi'r mynydd.

Elin Morse yn derbyn Tlws yr Actor Gorau oddi wrth Sioned Mair, y beirniad.

ARIAN ARLEIN YN CREU 400 O SWYDDI

Mae cwmni Cyllid Arlein yn buddsoddi £3m yn ne Cymru, gan greu 400 o swyddi newydd.

Bydd y cwmni'n sefydlu canolfan prosesu benthyciadau ym Mharc Nantgarw yn Nhrefforest a'r gobaith yw recriwtio'r staff i gyd erbyn Mai 2001.

Deellir fod y cwmni wedi dewis y safle ar ôl trafodaethau hir gyda'r Awdurdod Datblygu ac mae hwn yn hwb i'r ardal, yn enwedig o gofio'r swyddi a gollwyd yn ystod y misoedd diwetha yn Sony, Pen-y-bont, a Panasonic ym Mhentwyn, Caerdydd.

GŴYL DDRAMA

Diolch i gefnogaeth rhai o selogion yr Wŷl fe lwyddwyd i gael dwy noson o ddifyrrwch a hwyl eto eleni. Roedd y beirniad, Sioned Mair, wedi ei phlesio gan safon uchel y cynhyrchiadau ac yn arbennig cyfraniadau pobl ifanc ysgolion Glantaf a Llanhari.

Diolch i Colin Williams a'r criw fu yn ei helpu am roi cyfle a llwyfan i ddoniau'r ardal.



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
029 20811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf ar y 1af Chwefror 2001
Erthyglau a straeon i gyrraedd erbyn 24 Ionawr 2001

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com
e-bost
pentyrch@tesco.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

Syrffio'r We dros y Nadolig

Dyma rai safleoedd defnyddiol a diddorol

www.gwales.com - eich allwedd i lyfrau Cymru
www.sgwrs.org.uk - safle i sgwrsio yn Gymraeg ar gyfer ysgolion cynradd
www.menteriaith.net - Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.
www.tafelai.com - y papur bro Tafod Elái a mudiadau Cymraeg yr ardal
www.urdd.org - Urdd Gobaith Cymru
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.ylolfa.com
www.cymru.gov.uk - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.bbc.co.uk/cymru - BBC Radio Cymru
www.bbc.co.uk/ffeil -Y Newyddion diweddaraf i bobl ifanc
www.ysgolcymer.co.uk - Ysgol Gyfun y Cymer
www.rctednet.net - Ysgolion yr ardal
www.cymruwales.com - Byd y Beirdd
www.academi.org - i'n llenorion

Oes gennych chi hoff safle Cymraeg? Rhowch wybod i - pentyrch@tesco.net

CLWB Y BONT
Pontypridd

Nos Lun 4 Rhagfyr. Parti Nadolig Cyd
Nos Fercher 6 Rhagfyr. Clwb Jazz
Nos Sadwrn 9 Rhagfyr. Dragonfall. Grwp Gwerin o Gwm Cynon
Nos Wener 15 Rhagfyr Parti Nadolig gyda Grwp Newydd Heather Jones.
Nos Sadwrn 16 Rhagfyr. Gig Nadolig y Clwb Jazz gyda Andrew Fawcett Jazz Quartet.
Nos Fercher 20 Rhagfyr Gig Nadolig Plaid Cymru.
Nos Galan. Disgo Gwisg Ffansi a Bwffe
Nos Fercher 3 Ionawr. Clwb Jazz yn jamio
Nos Sadwrn 13 Ionawr. Midnight City Soul Band
Nos Wener, 26 Ionawr. Y Strymdingars

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch

Nos Wener, 8ed Rhagfyr,
Cinio Nadolig
Tŷ Nant Ddu

Dewch yn Llu
Manylion
John Llewellyn Thomas 01443 218077
Bryn Roberts 01443 208211

CLWB Y DWRLYN

Ymweliad â Stadiwm y Mileniwm

Nos Fercher
20ed Rhagfyr
Manylion: 029 20890101

Apêl
Eisteddfod yr Urdd
Caerdydd 2001

CYNGERDD NADOLIG

Côr Ysgol Creigiau
a
Chantorion Creigiau
Neuadd Dowlais
Llaniltud Faerdref
7pm Nos Iau
14 Rhagfyr

CINIO A DAWNS SANTES DWYNWEN

gyda Band Aled Williams
Clwb Golff Radyr
26 Ionawr 2001

Ffôn: 029 20890101

Cynllun Ieuenctid y Cymoedd

150 AR DAITH I ALTON TOWERS

Aeth dros 150 o ddisgyblion blynyddoedd 9&10 ar drip CIC i Alton Towers ar 25 Hydref. Daeth y bobl ifanc o bob cwr o'r cwm gan gynnwys disgyblion Cymer, Llanhari, Rhydywaun a Rhydfelen. Roedd yn drip llwyddiannus iawn ac roeddynt wedi mwynhau yn fawr iawn. Y Nemesis ar Oblivion mae'n debyg oedd y pethau mwyaf poblogaidd yna ac aeth rhai arnynt dros ddwsin o weithiau. Er gwaetha gadael De Cymru am saith o 'r gloch yn y bore roedd yn werth teithio i fyny'r M5 i fynychu un o'r parciau mwyaf poblogaidd ym Mhrydain.

CLWB IEUENCTID AIL IAITH TREORCI

Agorwyd clwb ieuenctid ail iaith yn Nhreorci yn ystod mis Tachwedd ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7&8. Yn barod, mae'r fenter yn llwyddiannus gyda dros 15 yn mynychu yn gyson. Mae'r clwb yn cael ei gynnal yn Ysgol Treorci pob Nos Fercher rhwng 4pm-5.30pm. Andrew Morrisey ac Edwyn Parry yw arweinwyr y clwb. Yn ogystal â hynny, mae yna griw o fyfyrwyr chweched dosbarth yr ysgol sydd yn astudio'r Gymraeg fel Lefel A yn gwirfoddoli pob wythnos. Fe fydd y clwb yn mynd ar drip i'r Bowlplex ym mis Rhagfyr.

CYBER CAFF PONTYPRIDD

Mae'r fenter yma wedi bod yn hynod o lwyddiannus gan bod dros 70 wedi cofrestru ar lyfrau'r Cyber Caff a dros 30 ar gyfartaledd yn mynychu'r Cyber Caff yn wythnosol. Mae'r clwb yn cwrdd pob Nos Iau yn y YMCA, Pontypridd rhwng 7pm-9pm. Pris mynediad yw 50c yn unig.

Am fwy o fanylion am weithgareddau CIC cysylltwch a Rhodri Francis ar 01443 687284.

Cymru 1 Norwy 1

Roedd y 7fed o Hydref, 2000 yn ddydd arbennig. Roedd Cymru'n chwarae Norwy yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd y ddau dim wedi bod yn ymarfer yn galed ar gyfer y gêm. Aeth dros 50,000 o bobl i weld gêm gyffrous gyda llawer o chwaraewyr o'r Uwch Gynghrair Premier, fel Steffan Iversen, Tore Andre Flo, Ole Gunnar Solskjaer, Oyvind Leonhardsen, Ronnie Johnsen. Ond doedd neb yn y dorf yn gallu anghofio Ryan Giggs. Mae wedi bod yn chwarae'n arbennig dros Manchester Utd a gobeithiai'r dorf allu gweld un o'i berfformiadau gwych. Roedd y tywydd yn dda a doedd dim byd ar ôl i wneud, dim ond aros i'r chwaraewyr ymddangos. Y capteiniaid oedd Henning Berg, i Norwy a Gary Speed i Gymru. Cofiwch mae'r ddau gapten wedi cwrdd a'i gilydd mwy nag un waith, mae'r ddau yn chwarae i dimau yn yr Uwch Gynghrair. Pan ddaeth y ddau dîm allan i'r cae aeth y dorf yn wyllt.

Roedd tactegau Norwy yn wahanol i'r arfer. Dim ond Solskjaer oedd ymosodwr pennaf Norwy. Chwaraeodd Iversen ganol cae. Dechreuodd Norwy y gêm. Dechreuodd Cymru'n dda. Cafodd Ryan Giggs rhediad ac aeth tu fewn i Ronnie Johnsen a saethodd ond aeth y bêl tu fas i'r postyn o drwch blewyn. Roedd Ryan Giggs ar dân. Cafodd Norwy ddim llawer o gyfle i fynd i hanner Cymru o gwbl. Ond cafodd Ryan Giggs rhediad arall ac roedd John Hartson yn gofyn am y bel felly croesodd Giggs y bêl i sgwar y gôl-geidwad a pheniodd y bêl i gefn y rhwyd, ond dim gôl. Roedd John yn cam sefyll. Felly siom i'r dorf. Yna fe chwibanodd y dyfarnwr ac roedd yn hanner amser. Rwy'n credu bod Mark Hughes yn hapus gyda'i ddynion. Roedd Norwy yn lwcus iawn i fod 0 - 0 ar yr hanner Fe gafodd Paul Jones, gôl-geidwad Cymru hanner da. Yn sydyn daeth y chwaraewyr nôl allan i'r cae am yr ail hanner.

Eto fe ddechreuodd Cymru'r ai1 hanner yn dda ac fe aeth Ryan Giggs ar rediad gwych eto a phasiodd i Gary Speed. Roedd Nathan Blake yn aros yn y sgwâr a chroesodd y bêl i'r sgwâr a sgoriodd Nathan Blake gyda'i ben. Aeth y dorf yn wyllt. Yr unig beth oedd gôl-geidwad Norwy yn gallu ei wneud oedd crafu ei ben a gweld Cymru yn dathlu'r gôl.

Felly 1 - 0 oedd y sgôr. Yn syth ar ôl y gôl daeth Tore Andre Flo i'r cae ac aeth Steffan Iversen i ffwrdd. Roedd yna lawer o gyfleoedd ond doedd Cymru ddim gallu sgorio. Fe ddaeth eilydd arall i'r cae a hwnnw oedd Helstad a daeth Bakke bant o'r cae. Dim ond 10 munud oedd ar ôl, a gwnaeth yr eilydd, Helstad rhediad arbennig. Saethodd ond fe safiodd Paul Jones y bêl. Ond, roedd Helstad am saethu eto, bwrodd y postyn ond serch hynny sgoriodd gôl i Norwy. Fe aeth y dorf mor dawel â'r bedd. Yna doedd dim llawer o amser ar ôl a daeth Iwan Roberts i'r cae yn lle John Hartson. Fe gafodd e gêm wych, ac roedd pawb wedi canmol ei berfformiad. Chwibanodd y dyfarnwr ac 1 - 1 oedd y sgôr terfynol. Fe gafodd Cymru gêm arbennig a'r perfformiad yna oedd y perfformiad gorau i Mark Hughes ei weld gan Cymru.

Aled Wilcox.

Diawled Dawnus a Chwmni'r Rascals

YN CYFLWYNO
NOSON LAWEN

15 RHAGFYR 2000

NEUADD DOWLAIS
LLANILLTUD FAERDREF

Manylion pellach:

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Er cof am Chris

Bore cyntaf gwyliau hanner tymor - bore Llun braf o Hydref - un o'r boreau braf olaf cyn dilyw'r gaeaf, yn eironig - pwy all egluro pam y cipiwyd bywyd bachgen ifanc heini ac iach, hynod boblogaidd, mor sydyn, mor anesboniadwy. Bachgen ifanc pymtheg oed oedd Christian Thomas - wedi bod yn treulio'r noson yng nghartre ffrind ym mhen isa'r pentref yma; dechreuodd gerdded am adre - ond ni chyrhaeddodd 12, Y Teras, Creigiau - bu farw mor greulon o anesboniadwy, ychydig gamau yn unig o gartre ei ffrind.

Mab Carole ac Emyr Thomas oedd Christian, brawd Katie fach, un ar ddeg oed, cariad Elenid, a chyfaill i lawer iawn. Bu'n ddisgybl yn yr ysgol feithrin yma'n Creigiau, yna'r ysgol Gynradd - oddi yno aeth i Ysgol Gyfun Glantaf, ac yna i Blasmawr.

Roedd yn fachgen hynod o boblogaidd, a garai unrhyw beth a olygai ei fod allan yn yr awyr agored - seiclo, cerdded, rygbi, mynd am dro efo'i gi - bywyd llawn bachgen ifanc yn ei arddegau.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Groesfaen, pnawn Mercher yr wythnos ganlynol. Gymaint oedd y dorf, nid oedd lle iddynt oll oddi mewn i'r eglwys. Daeth y gymuned gyfan ynghyd - yn blant, yn bobl ifanc, yn deulu ac yn gydnabod - i gofio bachgen annwyl a thawel, bywiog a phoblogaidd, a gipiwyd mor annheg, mor greulon o gynnar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu - byddwn gryf a dewr er eu mwyn. Christian - bydd byw am byth yng nghalonnau y rhai a'i carodd.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt.

Llywodraethwr newydd

Llongyfarchiadau i Lyn Morgan, 4, Llys Gwynno, ar gael ei ethol yn aelod o fwrdd llywodraethol ysgol Gynradd Creigiau. Mae Lyn wedi bod yn hynod weithgar a chefnogol i'r ysgol ers ei ddyfodiad i'r pentref, ac mae'n siwr y gwnaiff ymroi i'w ddyletswyddau newydd gyda'r un arddeliad.

Y Cynghorydd Jim Prosser

Etholwyd Jim Prosser, Plaid Cymru, yn aelod o Gyngor Cymuned, Creigiau mewn ras glos iawn yn ddiweddar. Mae Jim a'i deulu wedi byw yn Nol y Felin, am nifer o flynyddoedd. Mae gan Jim ddiddordeb arbennig mewn materion amgylcheddol - fel aelod o grŵp Cadwraeth Gogledd Orllewin Caerdydd - ac yn fwy arbennig yn ei waith fel rheolwr ynni mewn awdurdod cyfagos.

Eisoes mae Jim wedi bod yn weithgar iawn yn y gymdogaeth - yn gwrthwynebu, yn llwyddiannus, gor-ddatblygiad tai ar safle'r Hen Felin, yn cynorthwyo mudiadau elusennol a chymdeithasol lleol, ac yn cynghori y Cyngor Sir ar agweddau cadwraeth o gynllunio.

Dymuniadau gorau iddo yn ei swyddogaeth newydd - a llongyfarchiadau gwresog.

Y Trwyn!

Canodd y 'Tebot Piws' 'slawer dydd am y 'rhywun' oedd 'wedi dwyn' eu 'trwyn'! Wel, mae'n bryd diweddaru'r gân - a chreu fersiwn newydd dan y teitl 'Mae rhywun wedi torri' nhrwyn!' - yn arbennig ar gyfer Mr Alun Rees - Y Teras. Wel, Alun bach, beth ddigwyddodd? O leia, nid y fi oedd ar fai y tro hwn! Brysia wella - a gofala am y trwyn yna o hyn allan!

Mrs Jean Southcliffe

Colli cymeriad go arbennig

Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth sydyn Mrs Jean Southcliffe. Ledi hynod, ledi urddasol a diddorol iawn. Bydd llawer yn ei chofio fel sylfaenydd Crochendy Creigiau, ac mae'n siwr bod llawer iawn o ddarllenwyr Tafod Elái yn berchen ar ambell ddarn o grochenwaith cain y Creigiau. 'Nôl ym 1947, cychwynnodd y diweddar Mr Reginald Southcliffe gynhyrchu crochenwaith go unigryw yn y crochendy a sefydlodd ef a'i wraig Jean, ar safle ar dir fferm Hendresguthan Fach ar Ffordd Efail Isaf. Cyfrifydd ydoedd ef wrth ei alwedigaeth, a chanddo ddiddordeb mawr mewn cemeg. Tyfodd y diddordeb yn ffordd o fyw - yn wir, gwnaeth Reginald a Jean sefydlu Crochendy a ddaeth yn enwog drwy'r byd. Yn anffodus daeth cynhyrchu i ben yn y Crochendy yn niwedd y 70'au - ac afraid dweud, os oes gennych ddarn o grochenwaith llathrliw Creigiau yn eich meddiant - gofalwch amdano yn dyner iawn! Os oes gan rhai o'n darllenwyr hanesyn difyr am un o ddarnau Crochendy Creigiau, basai'n hyfryd cael rhannu'r stori, cysylltwch, os gwelwch yn dda.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Jane, y ferch, a Huw Brian Williams, mab-yng-nghyfraith Mrs Southcliffe.

CAMPWAITH YSBRYDOLEDIG Y MILENIWM

Ie y flwyddyn hon - 2000, mewn pentref bach yn Bafaria. Ie, Oberammergau.

Yn y flwyddyn 1634 tarodd y Pla y pentref ond yn rhyfeddol arbedwyd y trigolion.

Fel act o ddiolchgarwch gwnaed addewid i berfformio Drama o fywyd yr Iesu bob deng mlynedd ar ôl hynny.

Eleni cysegrodd 2000 o bentrefwyr i berfformio pedair gwaith yr wythnos o fis Mai tan Hydref. Pob perfformiad o 9.30 y bore tan 6 yr hwyr gyda ysbaid i ginio.

Cynlluniwyd y llwyfan ar raddfa eang iawn mor llydan â'r theatr ei hunan a oedd ar gynllun cartref awyren ar Faes Awyr. Llwyddwyd i gael tua 5000 o wylwyr i bob perfformiad.

Roedd yna gôr wedi ei drefnu ar siap bwa ar draws y llwyfan mewn un rhes. Cyn gweld y gerddorfa oddi tano tybiais,ac eraill gyda mi, fod y miwsig ar dap ac nid yn fyw. Dyna raddfa o odidowgrwydd y canu yn gôr ac unawdwyr.

Erys nifer o'r cytganau yn wefreiddiol a chorws y bradychu gan Judas gyda'r geiriau "Wele Judas yn syrthio i dywyllwch dwfn" yn orchestol.

Mae'r croeshoeliad ei hun yn dra chyffrous o deimladwy nes gwelir dagrau lu yn llifo yn ddynion a gwragedd hen ac ifanc a hynny mewn distawrwydd byw.

Mae'r portread o fywyd yr Iesu yn ei wythnos olaf mor fyw ag sydd bosibl ei greu.

Gwyn eich byd os cewch iechyd a'r modd i weld perfformiad 2010.

Pererin

Cwmni Mega yn cyflwyno
O! CRYMS!
DIM BÂBRA BARA!
Theatr y Miwni
Pontypridd

Nos Sadwrn, 20 Ionawr
11 - 26 Ionawr
Bore a Phrynhawn

PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol: Delyth Jones a Jayne Rees

Newyddion Pont Siôn Norton

Digwyddiadau Rhagfyr
Rhagfyr 4ydd/5ed Cyngerdd Nadolig y Babanod yng Nghapel Coedpenmaen.
Rhagfyr 7fed Ffair Nadolig yn yr ysgol am 6 o'r gloch.
Rhagfyr 12fed/13eg Sioe Nadolig yr Adran Iau 'Joseff' yn Ysgol Gyfun Coed-y-lan.
Rhagfyr 18fed
Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Coedpenmaen.

Croeso Nôl
Braf yw cael Mrs Kath Morris, ein cynorthwywraig athrawon yn ôl gyda ni ar ôl cyfnod hir o salwch.

Elusen y Flwyddyn
Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn dewis un prif elusen i gyfrannu tuag ati. Yr elusen a ddewiswyd eleni yw Dr Barnados, ac yn ddiweddar daeth siaradwraig i annerch y plant ac i sôn am waith yr elusen hon. Bydd elw ein Cyngerdd Nadolig eleni yn mynd tuag at Dr Barnados.

Gwasanaethau Capel Sardis
am 10.30 y bore
3 Rhagfyr. Cymun. Parch Hywel Lewis
10 Rhagfyr Gwasanaethy Plant
17 Rhagfyr Coeden Nadolig
24 Rhagfyr Carolau
25 Rhagfyr 9.30 Gwasanaeth Byr a Cymun Dydd Nadolig
31 Rhagfyr Parch Hywel Lewis

7 Ionawr Cymun
14 Ionawr Mr D G Parry
21 Ionawr Parch Cyril Llywelyn
28 Ionawr Parch Hywel Lewis

Cyngerdd Nadolig
Nos Lun, 11 Rhagfyr am 7.30 gyda Chôr Godre'r Garth yn Amgueddfa Hanesyddol Pontypridd ger yr Hen Bont.

Ysgol Evan James

Edrychwn ymlaen at ddau ddigwyddiad tymhorol sef y Ffair Nadolig yn yr ysgol ar Nos Iau Rhagfyr 7ed am 6pm - stondinau o bob math a Siôn Corn wrth gwrs.
Bydd Siop y Bont yn gwerthu llyfrau, cardiau, fideos a CDiau.
Nos Fawrth Rhagfyr 12ed yng Nghapel Sardis Pontypridd am 6.30 cynhelir Gwasanaeth Nadolig Plant cyfnodau All 1 a 2. Bydd plant y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn perfformio eu cyngherddau yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau i Meilyr Geraint Rees a enillodd wobr gan gwmni arlwyo mewn cystadleuaeth i hybu bwyta'n iach.

Ymweliadau
Aeth Disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i'r Miwni i weld "Rhyfel Flora" gan Theatr Clwyd.

Mae PC Jeffries wedi galw heibio ddwy waith yn ddiweddar i sgwrsio â'r Babanod am ddiogelwch ar y ffordd gyda'i ffrind "Bobi'r car" a hefyd i siarad â phlant dosb 14 am gyffuriau.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Emma Smith, athrawes Dosb 6 ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Chwaraeon
Nofio
Cafwyd llwyddiant yng Nghystadleuaeth nofio yr Urdd yn ddiweddar. Aeth carfan o 23 i bwll nofio Edwardsville. Pob lwc iddynt yn Abertawe ym mis Ionawr.

Rygbi
Dyma ganlyniadau dwy gêm -
Evan James 10 Abercynon 10
Trerobart 20 Evan James 10 (Trychineb yn ôl Mr Thomas yr hyfforddwr!!)

Gymnasteg
Mae Derryn Bertram a Mererid Collins Jones wedi'u cynnwys yng ngharfan gymnasteg Cymru.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

Colomennod Clai
Llongyfarchiadau i Gareth Howells, Cherington Grove, Tonteg ar ennill tri chwpan am saethu colomennod clai. Mae'n gapten tîm ieuenctid Cymru eleni ac wedi ennill pencampwriaeth Cymru o dan 16, yn ogystal â phencampwriaeth rhyng-sirol Cymru.

Gareth Howells

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Elaine a David Davies, Gethin a Sian, Llanberis Close wedi i Elaine golli ei thad yn ddiweddar.

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Carol Hardy, Y Parêd, Pentre'r Eglwys yn ei swydd newydd gyda chwmni Acen. Dymunwn hefyd adferiad iechyd llwyr a buan i Daniel ei mab sydd ar hyn o bryd yn treulio cyfnod yn yr ysbyty. Brysia wella Daniel, deni yn meddwl amdanat.

Ffotograffydd
Croeso i'r ardal i Paul Bode, ffotograffydd o Gaerdydd sydd newydd agor stiwdio yn Nhŷ Llanilltud, Y Stryd Fawr, Pentre'r Eglwys. Cynigir gwasanaeth Cymraeg yno ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau ysgol gan mai ei bartner busnes (a'i wraig!) ydi Helen sy'n athrawes yng Ngartholwg. Bydd y stiwdio ar gau ar ddydd Sul a dydd Llun a'r rhif ffôn yw 01443 204618. Pris sesiwn arferol yw £25 gyda llun 8' x 6' am ddim ond cynigir gostyngiad o 10% tan Ionawr 31ain, felly nawr yw'r amser am anrhegion Nadolig! Pob lwc ar y fenter, tybed oes gobaith y byddwn yn eich croesawu i fyw yn y cyffiniau cyn bo hir?

Ysgol Gymraeg Garth Olwg

Ymwelwyr i'r Ysgol
Pleser oedd croesawu Miss Janine Wardill a Miss Cerys Jones, myfyrwyr o UWIC atom ni am eu hymarfer dysgu cyntaf. Mi fyddan yn ymweld â ni bob tymor yn ystod y flwyddyn.

Noson Tân Gwyllt
Cawsom noson lwyddiannus iawn ar nos Sadwrn Tachwedd y 4ydd, pan ddaeth llu o bobl a phlant i gae'r ysgol ar gyfer arddangosfa Tân Gwyllt. Ein diolchiadau i bawb.

Gala Nofio'r Urdd
Cafodd pob cystadleuydd fwynhad yng Ngala Nofio'r Urdd a gynhaliwyd yn y Porth ar Dachwedd 21ain. Daeth Sara Tennant yn ail yn y gystadleuaeth broga i ferched Bl.5 a 6, a daeth Rebecca Outing yn ail yn y gystadleuaeth nofio cefn. Bydd y ddwy yn cystadlu yn y rownd Genedlaethol yn Abertawe ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau i Sara a Rebecca.. Diolch i Mr Meredith am eu hyfforddi.

Rygbi
Bu tîm yr ysgol yn chwarae yn erbyn ysgolion eraill yr ardal. Dyma'r canlyniadau.
Garth Olwg 19-Castellau 14
Garth Olwg19-Y Ddraenen Wen 35

Pêl Rwyd
GarthOlwg 0 - Llanilltud Faerdref 1
Garth Olwg 3 - Llwyncrwn 3
Diolch i Mr Meredith a Mrs Davies am yr hyfforddiant.

Ffair Lyfrau
Ar nos Lun Tachwedd 20fed cynhaliwyd ffair lyfrau gan Siop y Ganolfan, Merthyr Tudful, yn Neuadd yr ysgol. Roedd yn gyfle braf i brynu anrhegion Nadolig.

Perfformiad 'Horrible Histories'
Ar ddydd Gwener 24ain o Dachwedd, bydd yr Adran Iau yn ymweld â Theatr y Sherman yng Nghaerdydd i weld perfformiad o 'Horrible Histories'.

Cardiau Nadolig yr Ysgol
Eleni mi fyddwn yn gwerthu cardiau Nadolig yr ysgol. Bu cystadleuaeth i benderfynu ar y cerdyn gorau ym mhob blwyddyn. Diolch i Miss Griffiths a Mrs T. Rees (rhiant) am y gwaith trefnu.

Dyddiadur y Nadolig
Cynhelir y ffair Nadolig ar ôl ysgol ar ddydd Gwener, Rhagfyr y 1af pan fydd Siôn Corn yn ymweld â'r plant.

Rhagfyr 11eg – Sioe Gerdd C.A.1 am 6.30 pm
Rhagfyr 13eg – Sioe Gerdd C.A.1 am 2 o'r gloch
Rhagfyr 14eg – Sioe Gerdd C.A. 2 am 6.30 pm
Rhagfyr 15fed – Sioe Gerdd C.A. 2 am 2 o'r gloch
Rhagfyr 19eg – Parti Nadolig C.A.1
Rhagfyr 20fed – Parti Nadolig C.A.2
Rhagfyr 12fed – Ymweliad gan Rosfa a Plwmbo.

SIOP BARA Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

Taith Iwerddon

Dros hanner tymor aeth criw o ysgolion Rhydywaun, Glantaf, Rhydfelen ac Ystalyfera ar daith i Iwerddon. Ar ôl cyrraedd Rosslare teithion ni ymlaen i Gilkenny er mwyn cyrraedd ein cartref am y ddau ddiwrnod nesaf...castell Foulksrath! Efallai mai'r ysbrydion oedd yn gyfrifol am y ffaith bod llawer wedi methu cysgu am y ddwy noson!

Cafwyd diwrnod o siopa yn Nulyn ar y dydd Mercher cyn dychwelyd i ardal Kilkenny am noson allan. Wrth edrych ar y lluniau gallwch weld bod bobl wedi mwynhau ac roedd un neu ddau wedi dod o hyd i gariad...say no more!

Gallwch gael mwy o fanylion am deithiau a gweithgareddau'r Urddaholics drwy gysylltu â Heulyn@urdd.org

Ysgol Gyfun Llanhari

Cariad Mewn Bocs

Mae dwy ferch o flwyddyn 13 sef Kate Roberts ac Emma Udy wedi gofyn i ddisgyblion blwyddyn 8 un ai i gyfrannu eitemau, neu i lenwi bocs esgidiau gydag anrhegion i'w danfon i blant o wahanol oed yn Romania. Mae gwahanol ddosbarthiadau wedi cael oed arbennig i gasglu ar eu cyfer. Mae 8M er enghraifft wedi bod yn casglu ar gyfer merched 12 - 14 oed ac mae'r dosbarth wedi llwyddo i bacio wyth bocs ar gyfer eu danfon i Romania. Mae'r cynllun yma wedi bod yn cael ei redeg ers nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn dosbarthu anrhegion i blant tlawd yn Nwyrain Ewrop a'r trydydd byd.

Mae Emma a Kate yn gwneud y cynllun yma fel rhan ychwanegol o'u cwrs Iechyd a Gofal CGCC. Maent yn gobeithio cael tua 30 bocs i'w danfon draw i Romania.

Y Drindod yn Llanhari

Bydd criw Theatr Cerdd a'r Cyfryngau, Coleg y Drindod, yn cyflwyno

"Pwythau" gan Morgan Hopkins

yn Ysgol Llanhari ar nos Fawrth Rhagfyr 12. Mae'r sioe, sydd ddim yn addas i blant dan 12 oed, yn dechrau am 7.30

Tocynnau'n £4 a £2.50.

Yr un criw, fwy neu lai,

Ffair Nadolig

Ysgol Gyfun Llanhari
Nos Iau 7 Rhagfyr am 6pm
Stondinau di-ri a Siôn Corn

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

Cysylltiadau Capel Y Ton.
Mae un o'n haelodau sef Mrs Ivy Priddle sydd yn byw ychydig o ddorau i fyny oddi wrthym ni yn Nhylcha-Wen wedi syrthio ar y ffordd i fyny i Donyrefail i ymuno mewn gwasanaeth yng Nghapel Bethel Penticostiaid, ac wedi brifo ei hun yn ddifrifol a hithau yn 90 oed. Dymunwn wellhad buan iddi a chawn ei gweld yn y cwrdd eto yn fuan. Mae llawer o'n haelodau a ffrindiau yn gaeth i'w haelwydydd, ac am fod y Nadolig wrth y drws cofiwn am Mrs Gwenny John Heol Uchaf, Mrs Mary Williams Llys Yr Efail, Mrs Mary Church eto o Lys Yr Efail, Mrs C. Buck Tynybryn i gyd dros eu 90. Mae cyn aelodau Ainon yng Nghartref Gelliseren - Mr Dilwyn Llewelyn a Mrs Cassie Entwhistle hithau hefyd dros 90 oed. Dymuniadau gorau iddynt a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iddynt i gyd.

Mae un o gyn aelodau Ainon wedi bod yn aros gyda'i merch yn Awstralia ac mae wedi dychwelyd yn ddiweddar, ag wedi cael amser bendigedig yno. Bu ei mab Gwyn allan hefyd ond gorfu iddo ef ddod adre rai wythnosau yn gynharach am fod ganddo fferm a gwaith yn ei ddisgwyl, Mae Mrs Owen yn 90 oed.

Bethlehem Cwmlai.
Ar nos Wener 17eg o Dachwedd cynhaliwyd noson Nadoligaidd yn y capel yng nghwmni parti o Fyddin Yr Iachawdwriaeth. Y thema oedd Mwdi a Sanci o'r emynau enwog. Y Parchedig Ernie Banwell y Gweinidog oedd Mr Mwdi (Moody) ag aelod o'r parti oedd Mr Sanci (Sankey). Cafwyd eitemau gan blant yr ysgol Sul ac yn cyfeilio oedd Mrs Morien Hoskins. Noson arbennig.

Gymanfa .
Ar brynhawn Sul y19eg o Dachwedd aeth cynrychiolaeth o Gapel Y Ton lawr i Gapel Y Crwys Caerdydd i ymuno mewn gymanfa ganu Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

CYNGERDD O FAWL.
Ar nos Iau Tachwedd 9ed cynhaliwyd Cyngerdd o Fawl i ddathlu'r Mileniwm newydd gan gapeli ac eglwysi Gilfach Goch. Roedd y Ganolfan Gymdeithasol Tre-Ifan (Evanstown) dan ei sang er mawr llawenydd i'r pwyllgor a fu wrthi'n trefnu'r noson.Cyflwynydd y noson oedd Mr W.M.Phillips Calfaria a gwnaethpwyd y rhannau arweiniol gan y Parch Brian Hodges, Bethel.

Trefnwyd bws i'w cludo yn y Rhondda a chodi yn y Ton. Diolch i'r Parchedig Cyril Llewelyn o Dreorci am wneud y trefniadau. Ar ôl y gwasanaeth darparwyd lluniaeth gan wragedd y Crwys, roedd pawb wedi mwynhau'r canu a'r bwyd. Yn anffodus roeddwn i wedi methu ag ymuno â hwy am ein bod yn mynd i lawr i Sir Gar erbyn y Llun i fod yn angladd chwaer-yng-nghyfraith yn Bryn Iwan.

Damwain Angheuol.
Ar nos Sadwrn 10fed o Dachwedd daeth y newydd trist am farwolaeth John Adam Blamey, 19 oed wrth groesi cledrau ger gorsaf rheilffordd Pontyclun. Roedd Adam yn chwarae rygbi i garfan ieuenctid Tonyrefail. Claddwyd ei weddillion ar y bore Gwener canlynol. Cafodd ei ffrind Mathew Pope o Gwmlai anafiadau difrifol i'w goesau ac mae yn cael triniaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Cydymdeimlad.
Cydymdeimlad dwys â Mrs Joy Conn o ystâd Tylcha Ganol Tonyrefail ar ôl marwolaeth annisgwyl ei chymar. Roedd Howard Conn ond 53oed ac yn anterth ei nerth.

Mae Joy yn athrawes yn ysgol Trefyrug, Tonyrefail ag yn ffrind agos i Mrs Beryl Davies cyn Brifathrawes yr ysgol sydd yn aelod yng Nghapel y Ton ag yn ffrind agos i ni fel teulu. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Coity. Gwasanaethwyd gan ficer Tonyrefail.

Cafwyd eitemau gan Gôr Meibion Llantrisant dan ei arweinydd Meryn Williams, ac roeddent hefyd wrth law i helpu gyda'r canu cynulleidfaol. Roedd Mrs Iris Llewelyn Tonyrefail wrth y piano drwy gydol y noson a braf oedd ei chroesawi yn ôl i'w chynefin a braf hefyd oedd gwrando ar y bysedd medrus ar y piano. Mae Mrs Llewelyn bob amser yn falch i ddod yn ôl i'r Gilfach.

Cawsom eitemau swynol a medrus ar y delyn gan Sali Ann Jones un o ferched dawnus y cwm, ac yn yr ail ran cawsom eitem gan grŵp bychan o'r Ganolfan Gymdeithasol dan arweiniad Laura Bradshaw i'n diddori. Yn ystod y cyfarfod casglwyd £210 a rhoddwyd y casgliad i Gronfa Laura Price. Merch ifanc iawn l3oed yw Laura o'r Gilfach sydd wedi colli ei golwg yn ddisymwth iawn. Offrymwyd y fendith ar ddiwedd y noson gan y Parch Stephen Ambani, Ficer y Plwyf.

Pan glywyd am salwch Laura aeth rhai o'r trigolion ati i godi arian er mwyn prynu cyfrifiadur sydd wedi ei addasu'n arbennig ar gyfer pobl a nam ar eu golwg.Erbyn hyn mae digon o arian wedi ei gasglu drwy lawer o weithgareddau a haelioni'r trigolion ac fe gaiff Laura ei chyfrifiadur erbyn y Nadolig. Ni fydd y gronfa yn cau gan fod angen meddalwedd arbennig a gwersi arni . Diolch i Mrs Christine Evans am ei hymdrechion diflino yn codi cymaint o arian, a diolch i bobl Gilfach a Thonyrefail am eu haelioni.

DOSBARTH CWILTIO
Mae'r dosbarth cwiltio wedi ail ddechrau unwaith eto, wedi bwlch o rai blynyddoedd, yn Neuadd Newydd yr Henoed. Mae croeso cynnes i bawb o bob oed i ddod ar brynhawn dydd Iau i ddysgu cwiltio traddodiadol Cymreig . Mae Mrs Jenkins, Mrs Abraham a Mrs Byant yn barod i ddysgu'r hen grefft i unrhyw un sydd â diddordeb.

SIARAD AM DDYFODOL DISGLAIR

Un o sêr cyfres ddiweddara Talk About Welsh yw'r talent actio ifanc GERAINT PICKARD, gynt o Donteg, ger Pontypridd. Mae Geraint yn chwarae rhan Alun George, is-reolwr gwesty'r Celt, dyn twyllodrus sydd am weld ei fos a rheolwr y gwesty Ceri Edwards, yn colli ei swydd. Chwaraeir rhan Ceri gan SHARON ROBERTS.

Talk About Welsh yw cynhyrchiad teledu cyntaf Geraint Pickard ers symud yn ôl i Gymru i weithio. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn actio tra'n fyfyriwr yn Ysgol Gyfun Llanhari, cyn iddo symud ymlaen i ddilyn cwrs drama ym Mhrifysgol Aberystwyth. Wedi iddo gwblhau ei radd, fe enillodd ysgoloriaeth gan S4C i ddilyn cwrs yn Ysgol Ddrama Rhydychen.

Tra yn Rhydychen, ymunodd Geraint ag asiantaeth yn Llundain, ac felly fe benderfynodd ail leoli yno. Ar un adeg aeth i weithio i Theatr Drury Lane ond wedi blwyddyn yn Llundain, penderfynodd Geraint symud yn ôl i Gymru ac aeth i weithio i gwmnïau theatr gan gynnwys Theatr Mewn Addysg, Theatr lolo, Theatr Spectacle a Cragrats, cyn cychwyn ei yrfa ym myd teledu. Ers hynny mae wedi gweithio'n gyson; yn ogystal â Talk About Welsh, mae wedi derbyn rhan mewn ffilm fer, Silent Wolves, a rôl mewn ffilm o'r enw Y Delyn, i'w darlledu ar S4C y flwyddyn nesaf.

Mae Geraint yn cyfaddef ei fod yn edmygu gwaith ei gyd actorion Cymreig sy'n gweithio ar lwyfannau byd enwog yn y West End ac yn Hollywood. Medd GERAINT, "Mae'n wych gweld actorion o Gymru yn llwyddo ac yn ysbrydoli actorion fel fi. Mae hefyd yn galonogol i weld nad ydyn nhw wedi troi eu cefnau ar Gymru, ac yn dal i chwarae rhannau yn y Gymraeg a'r Saesneg."

Medd Rowena Griffin, Cynhyrchydd Talk About Welsh ar gyfer HTV, "Mae Talk About Welsh yn brofiad arbennig i unrhyw actor ifanc fel Geraint, yn cychwyn ar yrfa ym myd teledu. Mae actorion yn dysgu mai Beibl, i bob pwrpas yw sgript Talk About Welsh; hynny yw i'w gofio air am air, heb unrhyw awgrym o 'ad-lib', 'slang' neu acen ranbarthol. Mae actorion yn darganfod bod angen disgyblaeth gadarn, nid yn unig i ddilyn y sgript gair am air, ond hefyd i gadw yr actio mor naturiol â phosib er mwyn cadw'r elfen opera sebon yn gredadwy.

"Mae Talk About Welsh eisoes ar ei phumed gyfres ac mae wedi helpu miloedd o ddysgwyr i wella eu Cymraeg. Mae'r cyfresi cyntaf yn cael eu hail ddarlledu ar wasanaeth newydd y Coleg Digidol ar S4C Digidol bob dydd Mawrth."

Yr wythnos hon ar Talk About Welsh (Dydd Sul), bydd y criw yn gofyn y cwestiwn - Ble cest ti dy eni?

TALK ABOUT WELSH
Dydd Sul, 2.35pm, ar S4C

Nia Einir a Nia

Huw F. Lewis gyda Robert Jones a Rupert Moon

Y Brodyr Bach

Roedd criw y Brodyr Bach wedi cael rhai o gewri byd rygbi i roi Huw F. Lewis, dyfarnwr rygbi adnabyddus o Bontypridd mewn dipyn o gornel.

Roedd Nia Williams a Nia Einir Williams dwy o athrawon ymgynghorol yr ardal am roi gwers i'w cyfaill Huw Tymbl am ei fod wedi dweud droeon na fyddai'n cael ei ddal gan y Brodyr Bach.

Gwahoddwyd Huw i gyfweliad teledu gyda Robert Jones a Rupert Moon ger Stadiwm y Mileniwm ar gyfer y rhaglen Heno. Roedd y rhaglen yn mynd allan yn fyw ond wrth i'r munudau agosau at y darllediad fe aeth y cyflwynydd yn sâl ac fe ofynwyd i Huw gymeryd ei le a holi'r cewri rygbi. Roedd y straen yn dechrau dangos er fod y cewri bron yn methu cadw gwyneb syth.

Fe roddwyd Huw mewn nifer o sefyllfaoedd anodd gyda criw o gefnogwyr o'r ardal yn creu stwr yn y cefndir a'r cyfan i fod yn fyw ar Heno nes i'r Brodyr Bach droi i fyny.

Llongyfarchiadau i Huw Tymbl am gadw'r cyfan i fynd ac am brofi fod dyfodol disglair o'i flaen fel darlledwr rygbi er gwaetha cynllwynio ei gyfeillion.

Gŵyl Ddrama Tafod Elái

Beirniadaeth Sioned Mair

Diolch yn fawr am y gwahoddiad i'r ŵyl. Roeddwn yn siomedig nad oes llawer yn cystadlu eleni ond gobeithio fydd y rhod yn troi eto. Dydy hynny ddim wedi tarfu ar y mwynhad 'dwi wedi cael. O'n ni wedi bod yma unwaith o'r blaen a chymryd rhan mewn Noson Lawen fel fi fy hyn pan oedd Caryl yn beirniadu.

Wedi bod yn donic i ddod yma. Neithiwr gawson ni gyferbyniad rhwng y canu, yr actio a'r gerddoriaeth. Roedd Aled Williams yn ddyheig iawn ar y gitâr - roedd waliau'r neuadd yma yn siglo gan sŵn a nifer fawr ohona ni bron a chodi i ddawnsio. Yna fe gafon ni Ferched y Garth - roeddwn i'n aelod rhai blynyddoedd yn ôl a dwi'n meddwl flwyddyn nesaf y dylech chi gystadlu ar y Noson Lawen - mae digon o dalent a deunydd ganddoch chi.

Neithiwr hefyd gawson ni griw o ddysgwyr o Brifysgol Morgannwg yn perfformio drama am sêr Hollywood ddoe a heddiw. Am un peth roedden nhw'n actio mewn ail iaith ond hefyd roedden nhw yn actio efo acenion. Mae gwneud acen mewn iaith sy'n ail iaith yn anodd ond roedden nhw wedi llwyddo yn arbennig o dda ac roedd y gwisgoedd a'r colur yn cyfleu y cymeriadau a chafon ni flas go iawn ar y cymeriadau Hollywood neithiwr a dwi'n ddiolchgar iawn iddyn nhw.

Sgets Merched y Garth

Y Sermoni Gloi

Cwmni Dysgwyr Prifysgol Morgannwg

Côr Merched y Garth

Samantha Lloyd a Laura Harries yn Wrth Aros Godo

Tomos Lewis a Ceri Mears yn 'I'

Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf

Wel heno ddechreuon ni efo'r dwys a'r difrifol. Pedwar o ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf yn perfformio rhannau o ddwy ddrama. Yn gyntaf 'I' gan John Owen. Roedd yn anodd i bortreadu yr holl ddwyster sydd yn cael ei greu yn y ddrama yma. Roedd y ddrama yn portreadu profiad bywyd tyfu fyny, perthynas, cael plentyn a cholli'r plentyn yna Dwi ddim yn meddwl fod unrhyw un sydd heb gael y profiad yna yn gallu dirnad colled mor enfawr ydi o. Ond dwi meddwl y gwnaeth y ddau yma, Tomos Lewis a Ceri Mears, deilyngdod a'r ddrama. Gwnaethon nhw lwyddo i greu yr holl ystod o deimladau oedd yn bodoli rhwng y cwpwl yma. Cyflwyniad cryf iawn a chwbwl diffuant.

Wedyn aethon ni at 'Wrth Aros Godo' gan Samuel Beckett. Mae'r ddram yma yn fwy cyfarwydd i mi. Mae na gymaint o brofiad bywyd yn nramâu Beckett hefyd. Ac fe lwyddodd Samantha Lloyd a Laura Harries i greu y ddau gymeriad digon gwirion yma sydd yn aros am rywun sydd byth yn cyrraedd ac mae nhw'n gwneud pethau dwl i basio'r amser. Perfformiadau egnïol iawn oedd yn cynnal y darn yma o'r ddrama oedden nhw wedi dewis. A dwi'n ddiolchgar iawn i'r pedwar ohonoch chi am berfformio heno ac mae Ysgol Glantaf yn llwyr deilwng o Dlws yr Ysgolion.

Lluniau: D.J. Davies



Aled Williams

Panto Ysgol Gyfun Llanhari

Gŵyl Ddrama Tafod Elái

Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari

Wedyn aethon ni o'r dwys a'r difrifol i banto Ysgol Llanhari. Mae fy merch, Nel, wedi dod hefo fi heno a gwnaeth hi ddim stopio chwerthin drwy gydol y panto. Ac wrth gwrs fe gafon ni'r cwbwl yn y panto - y da, y drwg, y da yn goresgyn y drwg, fe gafon ni'r dwl, yr un sy'n gwybod y cwbwl, fe gafon ni'r cast yn hel y gynulleidfa i mewn i'r chwarae - popeth sydd i fod i ddigwydd mewn panto. Roedd y sgript yn ddyfeisgar, yn ddoniol, yn gyfoes. Mae o mor galonogol eich bod chi'n mwynhau creu rhywbeth ac yn ei berfformio fo oherwydd heb fod pobl ifanc yn mwynhau does na ddim dyfodol i berfformio yng Nghymru. Mae hefyd yn codi fy nghalon i weld pobl yn actio cymeriadau doniol heb fynd dros y top a bod yn ddoniol ddiffuant heb fod yn ffuantus ac mae hwnna yn grefft ac fe gawson ni sawl perfformiad yn ystod y panto oedd yn gwbwl ddiffuant a chwbl gredadwy fel cymeriadau. Fe fyddai yn edrych ymlaen i weld y cymeriadu yna yn trosglwyddo i'r llwyfan proffesiynol.

Mi lwyddoch chi i greu caneuon panto go iawn ac roedd Nel yn poeni yn ofnadwy bod un dyn yn mynd i golli'i drwsus. Mae'n rhaid i'r elfennau doniol yma fod yn weledol ac mae'r wisg llawn mor bwysig â'r gweddill ac roedd yr amseru yn fendigedig. Galla i mond canmol eich perfformiad chi. Bydd rhaid i chi berfformio fo eto yn yr ysgol. Oedd na ambell i 'in' jôc ond 'da ni gyd yn gallu uniaethu gyda phrofiadau ysgol. Roedd na gymeriadau unigol da iawn, Ryan Chapell fel Kevin, cymeriad off-the-wall hollol ddwl a dyna union beth gawson ni. Perfformiad arbennig. Ro'n ni synnu bo chi'n tynnu ar Bobl y Cwm achos o'n i'n sylwi fod un aelod o'ch cast chi wedi bod yn aelod o gast Pobl y Cwm hefyd. Roedd na ddim byd oedden ni'n gallu gweld i wella ar y perfformiad yna heblaw am roi dipyn bach o bolish ar y gan olaf. Y peth pwysicaf oll oedd bod chi wedi mwynhau ac roedd hynny'n amlwg. Oeddech chi wedi cael sbort wrth sgwennu ac ymarfer ac roeddech chi dal yn cael y sbort yna wrth ei berfformio fo. A da chi'n llwyr haeddu Tlws y Pantomeim.

Dwi wedi chwerthin cymaint mae mochau i'n brifo!

Da ni wedi cael y dwys a'r difrifol, y doniol ac i orffen yr hollol hurt -

Panto Ysgol Gyfun Llanhari

Cwmni'r Pentref

Pan o'n i'n ifanc 'do'n i ddim yn ffan mawr o Monty Python ond dros y blynyddoedd dwi wedi dod i fwynhau y math yna o ddoniolwch. O! osgo Meri. Dwi ddim yn gwybod sydd oeddech chi'n gallu llwyddo i ddal yr osgo. Oedden nhw mor ddoniol. Gawson ni'r hiwmor wacky a hiwmor cefn gwlad ac roedd hyd yn oed gweld y llenni yn agor a chau yn ychwanegu at yr holl ddarlun yma o 'chaos' oedd yn digwydd ar y llwyfan. Mae gwneud hwyl ar ben y frenhiniaeth yn rhywbeth sydd wedi ei wneud cymaint mae'n anodd meddwl am ongl arall i dynnu hwyl o sefyllfaoedd. Mae na nifer o bethau wedi digwydd yn ddiweddar yma ac mae nhw i gyd wedi cael eu gweu i'r stori. Gallai ddim o restru'r holl bethau ond roedd y Sgïo yn ardderchog - mae'n rhaid bod nhw wedi bod yn gwylio Ski Sunday am fisoedd i wneud o'n iawn. Roedden nhw'n sgiwyr proffesiynol iawn - doedd na ddim 'snowplough' yna o gwbwl. Roedd olygfa cân y deintydd yn arbennig gyda'r ddwy ferch gyda'r gwallt hir yn y cefndir - roedden nhw mor bert! Ac wedyn y chwistrelliad yn mynd i bob man. O'n i'n meddwl y byddai rhaid cario y deintydd oddi ar y llwyfan. Dwi ddim wedi gweld y cwmni yma'n perfformio o'r blaen ond oedd o fel chwa o awyr iach, tonic go iawn. Ac wedyn roedd y gan olaf mor ddoniol a chael ni i gyd i ganu. Felly mae 'na deilyngdod am y Cwmni Drama Oedolion Gorau.

Gan fod na gymaint o wreiddioldeb yma a chymaint o sgriptiau gwreiddiol efallai y dyle chi gael categori arall - sgript orau. Mae na le i roi clod i sgriptiau gwreiddiol.

Y Cwmni Drama Gorau - fy chwaeth bersonol i ydi o a dwi am roi o i Gwmni'r Pentref.

Yr actor gorau - da ni wedi gweld môr o dalent ar y llwyfan yma neithiwr a heno ac mae hynny wir yn codi nghalon i . Mae'r ystod i gyd wedi bod yma ac mae wedi bod yn anodd iawn dewis. Roedd Ryan Chappell o Banto Llanhari yn agos iawn ond dwi am roi Tlws yr Actor Gorau i Elin Morse.

Diolch yn fawr iawn i chi. Dwi wedi cael mwynhad pur ac rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf.

Cwmni'r Pentref

Y Teulu Brenhinol

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

Cymdeithas Gymraeg
Bu'r Gymdeithas i lawr yn y Bae yn trio profi eu doniau yn Bowlio Deg ym mis Tachwedd. Anelu am y bwyty wnaeth y rhan fwyaf o'r criw yn gyflym iawn.

Byddant yn anelu at fwyty arall ym Mannau Brycheiniog ar gyfer eu cinio Nadolig.

Ysgol Llantrisant
Llongyfarchiadau i Marian Evans, prifathrawes Ysgol Llantrisant ar ei phenodiad yn Ymgynghorydd Ysgolion Cynradd i Esis

Dymuniadau gorau hefyd i Afril Davies sydd wedi cael swydd yn Ysgol Heol y Celyn.

Bydd y Babanod yn cyflwyno sioe Nadolig yr Anifeiliaid a'r Plant Iau yn gwneud Y Dyn Blin yn eu cyngerdd Nadolig yng Nghapel Tabor.

Mae'r staff yn dathlu yn dilyn Arolwg llwyddiannus yn ddiweddar.

CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 2000

i ddisgyblion ysgolion uwchradd yr ardal

Blwyddyn 7:	cerdd ar y testun "**Yn y ffair**"
Blynyddoedd 8 a 9:	cerdd ar y testun "**Anrheg**"
Blynyddoedd 10 ac 11:	cerdd ar y testun "**Cyffro**"
Blynyddoedd 12 ac 13:	cerdd ar y testun "**Gafael**"
Agored:	**jôc** ar ffurf cerdd neu bennill

Y cynnyrch i law Rhys Dafis, 'Hiraethog', 48 Parc y Coed, Creigiau, CF15 9LY (029 2089 1360) erbyn 15 Rhagfyr 2000

TALWRN Y BEIRDD

Mae llu o feirdd yr ardal wedi bod yn profi eu doniau gerbron y Meuryn ar Radio Cymru yn ddiweddar.

Daeth tîm Y Dwrlyn ac Awyr Iach yn hollol gyfartal yn dilyn gornest gyffrous.

Rhaid i chi wrando ar y radio i glywed tynged Aberhafren.

Aelodau'r timoedd yw: Y Dwrlyn- Menna Thomas, Ifan Roberts, Dafydd Huews, Rhodri Jones ac Emyr Phillips. Awyr Iach - Efa Gruffudd, Mari George, Marc Lloyd Jones a Carys Hall. Aberhafren - Rhys Dafis, Tom Price a Glenys Roberts.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Ann ac Emlyn Davies, Sycharth, Maes y Sarn ar ddod yn Nain a Thaid! Cafodd Garmon, ei mab a Carys, ferch fach, Elain yn ddiweddar. Maent yn byw ger Penybont ar Ogwr. Mae rhaid bod pawb wrth eu boddau.Llongyfarchiadau!

Clwb y Dwrlyn
Ar 'bnawn Sul 12fed Tachwedd, daeth nifer o'n haelodau a'u ffrindiau i ymuno â Don Llewelyn ar daith gerdded lleol.Buon mor ffodus gyda'r tywydd - roedd yn brynhawn heulog sych a'r golygfeydd o Fynydd y Garth ar eu gorau. Cawsom lawer o hanes diddorol am yr ardal a chlywed sôn am hen gymeriadau y cylch. Ein diolch i Don Llewelyn am ei bytiau diddorol a wnaeth y daith yn un bleserus dros ben.

Neuadd y Pentref
Ar 18fed Tachwedd, cynhaliwyd Ffair Hydref Neuadd y Pentref. Roedd yna lu o stondinau amrywiol yno, wedi'u trefnu gan ddefnyddwyr y neuadd. Roedd yr elw yn mynd at goffrau Neuadd y Pentref, ac wrth olwg prysurdeb y prynhawn, gwnaethpwyd elw sylweddol.
Mae Neuadd y Pentref yn cynnal nifer o weithgareddau i gryfhau'r coffrau gan mai elusen yw hi, ac ni cheir unrhyw gefnogaeth ariannol o'r Awdurdod Lleol. Mae'r pwyllgor yn weithgar iawn ac yn aml, mae'n waith di-ddiolch. Mae presenoldeb neuadd o'r fath yn gaffaeliad i'n pentref, sy'n medru cynnal cylchoedd meithrin Cymraeg/Saesneg yn ddyddiol, ac yn ystod yr wythnos defnyddir gan amryw o grwpiau- dawnsio ballet/ tap i blant, Rainbow a Brownies, Tennis Byr, partïon i blant, Clwb Darby a Joan a Chlwb Cinio i bensiynwyr lleol, i enwi ond rhai. Mae'r neuadd yn brysur yn ystod y penwythnos, yn lle delfrydol i gynnal gweithgareddau cymdeithasol.

Rhwng Gwŷr Pen-tyrch

Digwyddiadau mewn plwyf yn ne Morgannwg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg
Gan R. Elwyn Hughes

Pris £4.50 y copi
(£5.00 drwy'r post)
oddi wrth yr awdur (Bryn Catwg, Pentyrch, Caerdydd, CF15 9QF)

[Can copi yn unig a argraffwyd a throsglwyddir unrhyw elw i'r Mudiad meithrin Cymraeg lleol]

Merched y Wawr
Ar 8ed Tachwedd daeth criw da ynghyd yn Festri Capel Bethlehem Gwaelod y Garth i ddangos ein gwybodaeth (neu'n hanwybodaeth) mewn cwis hwyliog a ddarparwyd ar ein cyfer gan Marian Wynne ac Ann Jones. Cafwyd llawer o chwerthin, a gobeithio y byddwn yn cofio ambell i ffaith. Tîm Nia oedd yn fuddugol, o drwch blewyn.

Cawsom y pleser i groesawu Malvina Ley o ardal Abertawe, Swyddog Datblygu, M.Y.W. i'n plith. Mae hi'n awyddus iawn i ddod i nabod yr aelodau o dan ei gofal, ac fe fwynheuodd hi noson yn ein cwmni.

Bydd ein cyfarfod nesa Nos Fercher, 13 Rhagfyr yn Neuadd y Pentref, Pentyrch, yng nghwmni Eleri Rogers, Caerdydd.

Pentyrch 1861

Yn 1861 cyhoeddwyd nifer o lythyrau protest gan drigolion Pentyrch (a gynhwysai, yr adeg honno, Creigiau a Gwaelod-y-Garth) yn nhudalennau Y Gwladgarwr, wythnosolyn a gylchredai yn Nwyrain Morgannwg. Y ddwy broblem a gorddai'r boblogaeth oedd cychwyn system y Company Shop yn y gweithfeydd lleol, a dyfodol ysgol y pentref - yn fwyaf arbennig, gweithred y ficer yn cau drws yr ysgol ar blant y capeli lleol. Yn ganolog i'r ail ddigwyddiad hwn oedd yr ysgolfeistr (Charles Prichard) a'r ficer (Horatio Thomas). Gan fod copïau o Y Gwladgarwr bellach yn brin iawn, ac am fod y cyfan yn adlewyrchu cryn weithgarwch ar ran trigolion Pentyrch a'r cylch yn 1861, penderfynwyd cyhoeddi'r llythyrau. Maen nhw ar gael bellach yn rhan o lyfryn 70 tudalen sydd hefyd yn cynnwys nodiadau ar fywyd a gweithgareddau Prichard a Thomas a'u lle canolog yn hanes yr ardal, safle'r iaith Gymraeg, cyfraniad yr enwadau crefyddol, eisteddfota, yr Iforiaid, a materion cyffelyb.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Joy ac Eifion Glyn, Lowri, Ifan ac Anna, Penywaun, wedi i Joy golli ei thad yn ddiweddar.

URDD GOBAITH CYMRU

Chwaraeon.

Pêl Droed
Mae Clwb Pêl Droed nos Wener ar gaeau astro, Canolfan Maritime, Maes y Coed, Pontypridd yn mynd o nerth i nerth. Mae'r sesiynau hyfforddi yn rhedeg o 5:30 tan 6:45 pob nos Wener - Croeso i bob aelod cynradd ymuno.

Mae galw am glwb pêl droed merched ac maen fwriad rhedeg clwb o'r fath ochr yn ochr ar nos Wener. Manylion pellach nes ymlaen.

Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i'r holl dimoedd a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd wythnos diwethaf, Sylw arbennig i dîm blwyddyn 9 a 10 Y.G.Rhydfelen a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth. Roedd 86 o dimoedd uwchradd yn cystadlu.

Nofio
Oherwydd tyfiant yn y Gala Nofio Blynyddol Cynradd a gynhelir fel arfer yn y Porth eleni fe rannwyd i mewn i 2 Gala; Ardal Rhondda a Llantrisant ac un arall i ardaloedd Pontypridd a Chwm Cynon. Mae'r canlyniadau ar gwefan yr Urdd; www.urdd.org. Cafwyd 2 ddiwrnod brwd o gystadlu a dymunwn yn dda i'r buddugwyr rhanbarthol pan fyddant yn ein cynrychioli ar Ddydd Sadwrn Ionawr 13 yn Abertawe yn y Gala Genedlaethol.

Cwmni Gwen
Mae'r cwmni wedi ail gydio yn eu gwaith ac maent yn cwrdd yn wythnosol yn y YMCA ym Mhontypridd. Mae Elin Llewellyn a Leanne Marsh wrth y llyw gyda Iwan England yn cyfarwyddo sioe eleni sef Opera Roc "3-2-1" Bwriedir llwyfannu'r sioe ar ddiwedd Chwefror. Nawr yw'r amser i griw newydd i ymuno wrth fynd ati i gastio y sioe. Mae 'na groeso i Ieuenctid 12-18 oed ymuno, a hynny ar nos Fercher.

Cwmni Gwen-bach
Dyma adain cynradd o'r criw hŷn sy'n cwrdd yn wythnosol yn neuadd Ysgol Gymraeg Evan James pob nos Fercher rhwng 5:30 a 7:00. Braf yw gweld plant o wahanol ysgolion fel Pont Siôn Norton, Evan James a Castellau yn gwneud ffrindiau a mwynhau. Unwaith eto os ydych ym Mlwyddyn 5 neu 6 dewch i ymuno â'r criw.

Trawsgwlad
Cynhaliwyd Trawsgwlad yr Urdd ar gaeau Prifysgol Morgannwg yn ddiweddar gyda bron i 500 o gystadleuwyr. Cafwyd prynhawn llwyddiannus gyda'r gwobrau yn cael eu cyflwyno gan gyn-ddisgybl Ysgol Llanhari a chwaraewr rygbi rhyngwladol Gareth Wyatt.

Gweithgareddau Hanner Tymor.
Aeth dros 200 o aelodau cynradd yr Urdd ar amrywiaeth o dripiau oedd yn cynnwys ymweliad i'r Bae, Bowlio Deg a Sglefrio Iâ ac ymweliad i'r London Eye. Hefyd aeth criw i'r Aqua Dome.

Pêl Droed - Cafwyd amser da ar drip cynradd i weld Cymru yn Chwarae Norwy yn Stadiwm y Mileniwm.

Grand Prix
Mis diwethaf gwelwyd criw o Aelodau Teulu Twm yn mwynhau rasio o gwmpas safle rasio Llandow. Cafodd pawb hwyl a dim un damwain!



FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

YN ÔL O'R DWYRAIN PELL
Croeso'n ôl i'r Parchedig Gareth Rowlands, Gweinidog Bethlehem, sy wedi bod i'r India.

Dywedodd ei fod yn synnu at weithgarwch yr eglwysi yn yr India. Er enghraifft, roedden nhw'n dymchwel eglwysi i godi rhai oedd yn ddwywaith neu deirgwaith yn fwy o faint.

"Mae fel Cymru 100 mlynedd yn ôl," meddai. "Mae'n anodd cysoni'r ddau fyd. Efallai y dylem ni feddwl am genhadu yma yng Nghymru nid dramor. Ond, ar y llaw arall, dylem ni ddim peintio llun sy'n rhy dywyll oherwydd mae gynnon ni bobol ymroddedig."

MARW MARGARET EDWARDS
Yn dawel ar Dachwedd 18 bu farw Margaret Tydfil Edwards, gweddw'r diweddar Brifardd J M Edwards a mam Emyr. Roedd yn 96 oed. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd, ar Dachwedd 23. Cydymdeimlwn â'r teulu.

MARW ADRIAN RUSH
Yn sydyn ar Hydref 25 bu farw Adrian Cyril Rush, mab Brenda a'r diweddar Cyril, brawd Heather, Alison a Samantha, a brawd-yng-nghyfraith Nick a Paul. Roedd y gwasanaeth yn Eglwys Unedig Ffynnon Taf ar Dachwedd 3 a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Ponypridd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

RHYBUDD I RIENI
Mae Gwylio Cymdogaeth Ty Rhiw wedi cyhoeddi rhybudd am ddau ddyn oedd mewn fan wen ddydd Mawrth, Tachwedd 14.

Ar y pryd roedd crwt 10 oed, Kyle Mustow, yn cerdded adre tua wyth o'r gloch y nos pan alwodd dyn arno a cherdded tuag ato. Pan redodd y crwt rhedodd y dyn ar ei ôl e ond, wrth i'r crwt agosau at ei dy, trodd y dyn yn ôl, neidiodd i mewn i'r fan a gyrru bant.

"Dyw Kyle ddim yn cysgu'n iawn," meddai ei fam, Lynette. "Mae'n dal i gael hunllefau.

"Dylai rhieni fod yn wyliadwrus. Digwyddodd hyn o fewn canllath i'n tþ ni."

Roedd y dyn yn gwisgo dillad du a het ddu. Os oes gan rywun wybodaeth, dylen nhw ffonio'r heddlu ar 01443 743757 neu 999.

MARW DAVID EDWARDS
Yn dawel ar Dachwedd 14 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, bu farw Thomas David Edwards (Dai), yn gynt o Moy Road, Ffynnon Taf, gðr Nellie a thad Lynne, Nan ac Alun.

Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Ponypridd, ar Dachwedd 24. Cydymdeimlwn â'r teulu.

PROFIAD ERCHYLL
Cafodd menyw brofiad erchyll pan oedd hi'n gyrru ei char Renault ar hyd yr A470 ger Ffynnon Taf am 9.10pm nos Wener, Tachwedd 17.

Roedd pedwar neu bum dyn ifanc ar ben pont ac yna cafodd "gwrthrych trwm" ei ollwng ar ei char, gan chwalu'r ffenest flaen. Os oes gan unrhyw un wybodaeth, ffoniwch Heddlu Pontypridd ar 01443 485351 os gwelwch yn dda.

MARW VAUGHAN DAVIES
Ar Dachwedd 13 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, bu farw Vaughan Jenkin Davies wedi cystudd byr. Cyn-weithiwr British Airways yn Nantgarw, brawd David, Nan, a Valmai, a nai Glenys. Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd, ar Dachwedd 17. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Tir Lithriad Mynydd y Garth

DIGWYDDIADAU
CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Rhagfyr 5: Y Gweinidog (Cymun); Rhagfyr 10: Y Parchedig Cynwil Williams; Rhagfyr 17: Y Gweinidog; Rhagfyr 24: Y Gweinidog; Rhagfyr 31: Y Gweinidog.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: prynhawn Mawrth yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Janice Edwards, 029 20 843192.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9-3.15, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: dydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Rhagfyr 1, Neuadd yr Ysgol: Noson Gwis a'r cwisfeistr yw Chris Tarrant De Cymru, Geraint Richards. "Does dim angen gwybodaeth anhygoel na threfnu tîm o flaen llaw," meddai'r trefnwyr.

Rhagfyr 5: Plant Blwyddyn Pedwar Ysgol Gwaun-y-Nant, Y Barri, a'u hathrawes, Rhian Carbis, yn ymweld â phlant Dosbarth 4C i

Digwyddiadau Ffynnon Taf, Nantgarw a Gwaelod y Garth

drafod daearyddiaeth, hanes lleol, a chyfnewid adnoddau, ffeithiau ac yn y blaen;

Rhagfyr 7: Cymdeithas Rhieni'n canu carolau. Eleni penderfynwyd canu tu allan i Fanc yr HSBC yn Heol y Santes Fair, Caerdydd. "Hyd yn oed os na ellwch ganu, mae angen casglwyr," meddai'r trefnwyr.

Rhagfyr 13: Cyngerdd Nadolig, Capel Bethlehem, 1.30pm, 6.30pm; Rhagfyr 14: Cyngerdd Nadolig Capel Bethlehem, 6.30pm; Rhagfyr 18: Rhai o blant Blwyddyn Chwech yn ffilmio golygfa Pobol y Cwm.

Rhagfyr 19: Disgo'r Disgyblion: Y Babanod rhwng 3.30pm a 4.30pm a'r Adran Iau rhwng 4.45pm a 6pm; Rhagfyr 22: Diwedd Tymor; Ionawr 9: Tymor y Gwanwyn yn dechrau i'r plant; Ionawr 9: Cyfres o gyfarfodydd cyn archwiliad Estyn rhwng Chwefror 12 a 15: Yr Arolygwyr a'r Staff am 4pm, Yr Arolygwyr a'r Llywodraethwyr am 6pm, a'r Arolygwyr a'r Rhieni am 7.30pm.

Ionawr 18: Adran y Babanod yn gwylio Pantomeim Cymraeg yn Theatr y Miwni, Pontypridd.

Ffordd y Garth wedi suddo oherwydd y tir lithriad yng Ngwaelod y Garth

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Pat Edmunds

Mamgu a Thadcu Eto
Bu dathlu mawr yn Nhŷ'r Capel yn ddiweddar pan anwyd ŵyr bach arall i June a Malcolm Griffiths - ffantastic, yn famgu a thadcu am yr eildro llongyfarchiadau mawr.

Marw Granville Davies
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mr Sid Davies, Ffordd y Capel.

Yn ddiweddar bu farw ei frawd Granville, yn enedigol o'r pentref ond yn awr yn byw yn Aberhonddu.

Dymuniadau Gorau
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Marilyn Watkins sydd newydd dderbyn triniaeth ar ei llygaid. Cofiwn hefyd am ei gŵr Ray sydd yn dal i fod yn yr ysbyty ac yn cael y gofal gorau posibl.

Croeso Nôl
Croeso yn ôl i'r ardal i Jane Davies sydd wedi dychwelyd o gylch Aberystwyth i weithio yng Nghaerdydd. Mae Jane yn ferch i Mr a Mrs Reuben Davies, Heol y Ffynnon - darllenwyr selog o Tafod Elái ers y dechrau.

Mae Jane wedi ymgartrefu yn Chandler's Reach erbyn hyn. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

Capel y Tabernacl
Rhagfyr 3. Parch D. Eirian Rees (Cymun)
Rhagfyr 10 Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol Sul
Rhagfyr 17 Oedfa Nadolig Teulu Twm
Rhagfyr 24 Oedfa Nadolig y Teuluoedd
Rhagfyr 31 Parch D. Eirian Rees (Cymun)

CYNLLUN CASETIAU CYMRAEG I'R DEILLION

Annwyl Ddarllenwyr,
Carwn dynnu eich sylw at y Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion, sydd yn wasanaeth rhad ac am ddim i'r rhai sydd â nam ar eu golwg.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf bu tîm wrthi'n recordio llyfrau o bob math ar gaset at ddefnydd y deillion a rhannol ddall. Erbyn hyn cyhoeddwyd catalog yn cynnwys 1700 0 deitlau ar destunau o bob math. Dosberthir y casetiau drwy'r post yn rhad ac am ddim i gartrefi cannoedd o fenthycwyr ledled Cymru. Anfonir y casetiau hefyd at fenthycwyr sydd wedi symud allan o Gymru.

Os gwyddoch am unrhyw un sydd yn cael trafferth i ddarllen oherwydd bod eu golwg yn ddiffygiol, tybed a wnewch chi ofyn iddyn nhw gysylltu â ni a'r Cynllun Casetiau Cymraeg, 1 Penlan, Caerfyrddin (Ffon 01267 238225).
Yr eiddoch yn gywir,
Rhian Evans

MENTER laith

ar waith yn Rhondda Cynon Taf
Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

Basai wedi bod yn braf i gael gwahodd pawb i barti 'Dolig y Fenter ond….i ddweud y gwir mae gormod ohonyn nhw…. gyda dysgwyr y Fenter yn dathlu ar un noson, staff ar noson arall a phob un o'r 9 clwb carco yn gwneud eu trefniadau ar wahan i'r plant y mae'n anodd iawn rhoi sylw i unrhyw un digwyddiad.

AGORIAD SWYDDOGOL I'R SWYDDFA DATBLYGU CYMUNEDOL YN ABERDAR

Diolch yn fawr iawn i Christine Chapman a Jonathan Huish am ddod i agor ein swyddfa datblygu cymunedol yn Aberdar. Gydag un o'r Blaid Lafur a'r llall o Blaid Cymru a'r ddau yn ymdrechu i gydweithio parthed prosiectau arian amcan un roedd yn gyfle gwych i'r Fenter ddod a phawb at ei gilydd er lles y gymuned gyfan. Mae Christine Chapman yn cadeirio Pwyllgor Monitro Arian Amcan Un ac y mae Jonathan Huish yn cadeirio Pwyllgor Adnewyddu Strategol Arian Amcan Un yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Swyddog Datblygu'r Fenter Iaith ar y pwyllgor amcan un lleol, i gynrychioli mudiadau gwirfoddol y sir yn gyffredinol, ac yn ymdrechu i sicrhau lle i'r Gymraeg o fewn y prosiectau a bod drws arian amcan un yn agored i gyrff Cymraeg wneud ceisiadau os ydyn nhw am wneud. Mae hyn yn apel uniongyrchol gyda llaw – os gwelwch yn dda, meddyliwch am brosiectau a dewch i'w trafod – ar hyn o bryd cais bach y Fenter ydy'r unig un perthnasol i'r Gymraeg.

Diolch yn fawr hefyd i Strinda Davies, Swyddog Celfyddydau Rhondda Cynon Taf sydd wedi sicrhau bod ein swyddfa newydd yr un mor llawn o waith celf ag yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd cyfraniadau Cymraeg o gynllun "Negeseuon y Milflwydd" gan blant Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdar ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pontsionorton a braf oedd eu croesawu i'r agoriad swyddogol.

GWAITH CLERIGOL ABERDAR

Yn anffodus y mae Elaine Gilbert yn gorfod gadael ei gwaith yn swyddfa Aberdar oherwydd gwaeledd teuluol felly rwyf am ddymuno yn dda iddi hi a diolch iddi am ei gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hi wedi bod yn help mawr wrth sefydlu swyddfa Aberdar. Yn amlwg bydd rhaid hysbysebu'r gwaith yn fuan ond y mae croeso i unrhwy un sydd a diddordeb fy ffonio i i drafod y posibiliadau.

LLWYDDIANT CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Cafwyd noson dda yng nghwmni Eirlys Pritchard Jones, Menter a Busnes, gyda llwyth o bobl busnes Cymraeg Rhondda Cynon Taf. Mae Eirian Davies, ein Hymchwilydd Economaidd, wedi cynyddu ein bas data o siaradwyr Cymraeg o fewn busnes o'r 30 roeddwn i'n delio gyda nhw i dros 90 o fewn mis o ddechrau ar y gwaith. Mae hyn yn dangos yn glir faint o effaith y mae staff ychwanegol yn gallu cael wrth ganolbwyntio ar un maes penodol ac rwyf yn gobeithio yn fawr y bydd modd cadw Eirian am dair blynedd neu fwy er mwyn datblygu'r maes hwn yn iawn. Ac os oes ambell i fusnes yn llwyddo yn yr ardal ac yn gwneud ffortiwn – wel, da ynte!

GORWELION AR Y GORWEL

Mae gobaith hefyd y bydd modd i Eirian ail sefydlu prosiect Gorwelion – i ymestyn gorwelion gyrfaol pobl ifanc yr ardal ac ymestyn defnydd y Gymraeg o fewn busnes – o fewn y misoedd nesaf. Bu'r ysgolion, y TEC, yr Awdurdod Lleol, y Partneriaeth Addysg Busnes, y Cwmni Gyrfaoedd ac eraill yn weithgar iawn gyda ni yn y maes hwn rhai blynyddoedd yn ôl ac rydym yn gobeithio y bydd modd ail sefydlu'r gwaith. Cyhoeddwyd swyddiadur yn nodi defnydd y Gymraeg gan gwmnïau lleol a chynhaliwyd Cynhadledd Yrfaoedd llwyddiannus iawn ym Mhrifysgol Morgannwg o'r blaen ond y mae nifer o syniadau posib i ni ddatblygu pe bai ein partneriaid am wneud hynny.

CEFNOGAETH MENTER A BUSNES

Rhaid nodi cefnogaeth cyffredinol Menter a Busnes sy'n helpu gyda llawer o'r gwaith newydd yn yr economi a diolch i Eirlys Pritchard Jones a Hywel Evans yn arbennig.

TWRISTIAETH Y CYMOEDD

Cafwyd sawl sylw ynglyn â thwristiaid ar goll yn y cymoedd yn chwilio am Fae Caerdydd ond rydym am barhau i weld a oes modd gweithredu yn y maes ac yn gobeithio cyfarfod gyda rhai o'r prif chwarae-wyr yn y maes yn y flwyddyn newydd.

Siomedig iawn oedd ymateb gwestai, caffis, tai bwyta ac ati i gyhoeddiad y Bwrdd Iaith "Ennill Tamaid" a wnaethom ddosbarthu yn ddiweddar. Ni fu ymateb, hyd y gwn i, ychwaith i gynnig grantiau bach Bwrdd yr Iaith a Bwrdd Croeso Cymru parthed cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Nid oes bai ar y ddau Fwrdd am hyn. Mae'r cynlluniau a'r cyhoeddiadau yn wych ac rwy'n siwr y byddant yn dwyn ffrwyth yn ystod y misoedd nesaf.

PARTNERIAID NEWYDD

Rydym yn chwilio am bartneriaid newydd trwy'r amser ac efallai y bydd rhai yn synnu i weld lle mae diddordeb newydd yn y Gymraeg. Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r Fenter yn eu harddangosfa newydd "Pwy yn ni?" Maen nhw hefyd yn gweithio ar gynlluniau uchelgeisiol eraill i ddatblygu gwaith yn y gymuned gyda ni ag amgueddfeydd lleol eraill yn Rhondda Cynon Taf. Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru hefyd yn awyddus i ddatblygu cydweithrediad gyda ni yn ogystal â'n partneriaid amlwg Urdd Gobaith Cymru.

Difyr ydy sylwi taw noson Gymraeg YMCA Pontypridd ydy eu noson orau erbyn hyn – da iawn Rhodri Ffransis.

GWIRFODDOLWYR

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd trwy'r amser – mae angen Tiwtor Cymraeg i Oedolion ar nosweithiau Iau yn y Cymer. Mae modd hefyd i bobl ifanc rhwng 16-24 wirfoddoli a chael costau teithio, bwyd ac arian at weithgaredd trwy gynllun Gwirfoddolwyr y Milflwydd o dan ofal Rhodri Wyn Thomas ar 01685 877183. Mae Eleri Griffiths yn trefnu cyfarfod Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg Rhondda Cynon Taf ar 31/1/01 i drafod sut mae denu gwirfoddolwyr at unrhyw fath o brosiectau yn yr ardal a sut mae eu cadw nhw hefyd!

STRATEGAETH A DYFODOL Y FENTER

Mae trafodaeth agored ar hyn trwy'r amser wrth gwrs trwy dudalennau'r papurau bro, y wasg yn gyffredinol a holl gyfarfodydd y Fenter. Mae croeso i bobl gysylltu â mi unrhyw bryd neu ysgrifennu atom yn ein swyddfeydd. Cynhelir cyfarfod arbennig i aelodau Pwyllgor Gwaith y Fenter bob blwyddyn i bawb gael mynegi eu barn. Mae ein strategaeth o weithredu trwy ddatblygu cymunedol a phenodi aelodau o staff i weithredu mewn meysydd arbennig yn ymddangos i fod yn llwyddiannus ac felly yn debygol o barhau. Mae'r symudiad o Daf-Elái i Rhondda Cynon Taf hefyd yn dechrau llwyddo ar ôl cyfnod o flynyddoedd yn ceisio gwneud hyn.

Gyda phresenoldeb cryf yng Nghwm Cynon bellach y mae'n debyg y bydd angen edrych yn fwy ar y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach sydd, i bob pwrpas, yn anialwch pur i'r Fenter o hyd. Rydym yn gobeithio cyflwyno clybiau carco trwy'r Rhondda adeg Y Pasg, rhai misoedd ar ôl ein cynnig cyntaf oherwydd nad oedd yr adnoddau ar gael i ni o'r blaen. Rydym hefyd yn gobeithio cynnig cynlluniau chwarae adeg y gwyliau ymhellach i mewn i'r Rhondda hefyd fydd yn cryfhau ein presenoldeb yno. Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ar 15/1/01 yn Aberdar.

GWYLIAU NADOLIG GO HIR

Wrth son am wyliau, pob lwc i Trystan Griffiths sy'n cymryd gwyliau hir yn ystod mis Rhagfyr ond yn dod yn ôl i'r gwaith yn y flwyddyn newydd. Mae cyfarfod nesaf Pwyllgor Gofal Plant y Fenter ar 9/1/01 yn Llantrisant. Y Swyddog Datblygu fydd yn cymryd cyfrifoldebau gofal plant y Fenter yn ystod y cyfnod hwn (O,NA!) gyda help ein prif swyddog clerigol Huw T Davies. Bydd llawer o'n staff yn cymryd gwyliau dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd felly ymddiheuriadau os nad ydych yn gallu cael gafael arnom yn ystod y cyfnod hynny ond mae modd cysylltu â fi ar 07976 167086 pe bai angen.

Steffan Webb
Swyddog Datblygu'r Fenter Iaith

Ci Diog - Sgwadnewyddu

Mae'r tîm o'r rhaglen deledu, Sgwadnewyddu, yn paratoi am gyfres newydd ac yn chwilio am help i helpu cymunedau led led Cymru.

Unwaith eto mi fydd y criw yn trawsnewid adeiladau cyhoeddus o bob math a hynny mewn ffordd hwyliog a chyffrous.

Oes yna rhywle addas yn eich ardal chi, adeilad sydd wedi gweld dyddiau gwell ac sydd angen cael bywyd newydd?

Gadewch i ni wybod ac efallai gall y Sgwadnewyddu, dan arweiniad Caryl Parry Jones, ddod draw i drawsnewid adeilad sy'n bwysig i'ch ardal chi. Cysylltwch a chwmni teledu Ci Diog, 169 Kings Road, Treganna, Caerdydd, CF11 9DE neu ffoniwch 029 20665050.

Pob hwyl,
Nia Ceidiog

Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Fforwm Cymraeg

Gweithdy Amcan 1
2pm Dydd Mercher
6 Rhagfyr
Swyddfa Interlink, Pontypridd

Cyfle i drafod syniadau a pharatoi i wneud eich cais.

Fforwm Cymraeg
Denu Gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith
2pm Dydd Mercher
Ionawr 31
Swyddfa Interlink Pontypridd

Cyfle i drafod syniadau ag ystyried sut gallwn weithio mewn partneriaeth i ddiwallu'r anghenion.

Manylion pellach:
Eleri Griffiths
01443 485337.

Problemau Cyfrifiaduro ???
Gwersi i ddysgwyr
Acennau Cymraeg
Prosesu geiriau
Datrys problemau
Safleoedd ar y We
Gwaith graffeg
Diagramau
Taflenni gwaith
Adfer lluniau
(029) 2089 2520
Y Cwmni Cyfrifiaduro Proffesiynol
Gweler 'Yellow Pages' tudalen 412

Nadolig y Plant

CHWILAIR

Ionawr	Mawrth	doe/ddoe
Chwefror	Mercher	yfory
Mawrth	Iau	eleni
Ebrill	Gwener	bore
Mai	Sadwrn	nos
Mehefin	eiliad	hwyr
Gorffennaf	munud	Gwanwyn
Awst	awr	Haf
Medi	dydd	Hydref
Hydref	diwrnod	Gaeaf
Tachwedd	wythnos	Pasg
Rhagfyr	mis	Nadolig
Sul	blwyddyn	
Llun	canrif	

M	A	I	D	E	M	E	H	E	F	I	N	G
U	I	O	N	A	W	R	Y	F	G	A	RH	I
N	E	DD	F	A	E	A	G	O	E	DD	G	L
U	Y	R	O	R	F	E	W	CH	M	I	S	O
D	P	F	I	N	E	L	E	I	L	I	A	D
R	A	G	O	R	FF	E	N	N	A	F	P	A
H	W	E	E	R	S	R	E	CH	R	E	M	N
DD	Y	E	B	B	Y	E	R	O	B	A	Y	O
E	TH	D	N	R	W	D	A	S	W	A	R	S
W	N	I	R	C	I	F	I	R	N	A	C	R
CH	O	A	TH	E	R	LL	TH	Y	D	U	S	Y
A	S	U	L	W	F	T	U	A	U	R	B	W
T	S	W	A	L	G	W	A	N	W	Y	N	H

Gwisgo'r Dyn Eira